Cymhwyster Lefel 2 CIEH mewn Egwyddorion HACCP

Lluniwyd Cymhwyster CIEH Lefel 2 mewn egwyddorion HACCP ar gyfer y rheiny sy'n gweithio neu'n paratoi ar gyfer gweithio mewn busnesau bwyd lle gweithredir system rheoli diogelwch bwyd sy'n seiliedig ar egwyddorion HACCP Codex. Bydd o gymorth i unrhyw un mewn lleoliad arlwyo neu gynhyrchu bwyd fel y gellir deall egwyddorion a phwrpas HACCP gan eu defnyddio'n briodol yn eu lle gwaith.

Mae'r cymhwyster un diwrnod yma'n hynod o ddefnyddiol ar gyfer y rheiny sy'n rhan o weithredu a chynnal systemau sy'n seiliedig ar HACCP, yn ogystal â'r rheiny sydd eisoes, neu'n bwriadu bod yn aelodau o dimau HACCP. Mae'r cymhwyster yn cyflawni anghenion hyfforddiant defnyddio egwyddorion HACCP o dan Reoliadau (EC) rhif. 852/2004 ar hylendid deunydd bwyd.

Amlinelliad o'r rhaglen

Bydd cwblhau'r asesiad a'r rhaglen hyfforddi'n llwyddiannus yn galluogi unigolion i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o:

- Bwrpas system HACCP
- Elfennau a therminoleg HACCP
- Sut y defnyddir system HACCP yn y gweithle

Gwybodaeth ar y Cymhwyster

Ystod: rhaglen un diwrnod
Dull asesu: arholiad atebion aml ddewis (30 cwestiwn)
Achrediad Ofqual: Na
Unedau QCF: A/601/2631
Rhagofyniad: Dim
Y ffordd ymlaen a argymhellir: Cymhwyster CIEH Lefel 3 mewn HACCP ar gyfer Cynhyrchu Bwyd / Arlwyo